# Datblygu Sgiliau Lliwio



Mae lliwio yn gam pwysig wrth ddatblygu sgiliau pensil a gellir ei ddefnyddio i ddatblygu gafael ar bensiliau, pwysedd pensiliau, rheoli pensiliau ac ymwybyddiaeth o ffiniau. Er bod llawer o blant ifanc yn mwynhau codi creon neu bensil a gwneud marciau ag ef, mae angen ymarfer y sgil o liwio o fewn y llinellau ac efallai y bydd hyn yn heriol i rai plant. Gall deall y gwahanol gamau y mae plentyn yn mynd drwyddynt wrth ddatblygu sgil lliwio fod yn ddefnyddiol ac rydym wedi manylu ar rai awgrymiadau da i helpu ar hyd y ffordd.

**Camau Datblygiad Lliwio**

**Cam 1**

Efallai y bydd eich plentyn yn dangos diddordeb mewn gwneud marciau gyda chreon, pensil neu sialc a byddant yn arbrofi ar wahanol fathau o arwynebau, ee papur, waliau, byrddau. Fel arfer byddant yn defnyddio symudiadau braich gyfan i greu'r marciau.

**Cyngor da!**

- Bydd defnyddio creonau/pensiliau a sialc byr a thrwchus yn helpu eich plentyn i ddatblygu ei afael.
- Mae defnyddio sialc y tu allan ar y wal yn wych ar gyfer datblygu cryfder ysgwydd eich plentyn.
- Dangoswch i'ch plentyn ble rydych chi'n hapus iddynt ddefnyddio eu pensiliau a'u creonau ac ati.

**Cam 2**

Gyda pheth atgyfnerthu gan oedolyn, bydd eich plentyn yn dechrau datblygu ymwybyddiaeth y dylent liwio ar bapur. Ar yr adeg hon efallai y bydd eu lliwio'n dod yn fwy targedig gydag ymgais i liwio gwrthrych, ond ni fydd unrhyw ystyriaeth i'r llinellau a bydd strociau pensil a llinellau ar hap, a ni fyddant yn ystyried lliw.

**Cyngor da!**

- Parhewch i atgyfnerthu'r arwynebau rydych am i'ch plentyn wneud eu marciau arnynt.
- Helpwch eich plentyn i ddatblygu pwysau trwy liwio ar arwynebau sydd â gweadau gwahanol.
- Lliwiwch luniau gyda'ch gilydd neu gydag aelodau eraill o'r teulu.
- Siaradwch gyda'ch plentyn am liw, tynnwch eu sylw at liwiau pan fyddwch allan ar deithiau cerdded neu pan fyddant yn chwarae.
- Beth am chwarae ambell i gem didoli lliwiau

**Cam 3**




Bydd eich plentyn yn datblygu mwy o reolaeth pensil a byddant yn dechrau defnyddio strociau i wahanol gyfeiriadau. Byddant yn dechrau dangos dealltwriaeth o ffiniau'r lluniau, ond efallai nad oes ganddynt ddigon o reolaeth dros bensil eto i aros yn llwyr o fewn y llinellau. Ar y cam hwn byddant yn dechrau dangos peth dealltwriaeth o'r defnydd o liw ac efallai y byddant yn dechrau defnyddio lliw yn briodol.

**Cyngor gwych!**

- Siaradwch am ba liwiau mae'ch plentyn wedi'u dewis, ond derbyniwch eu dewis hyd yn oed os yw'n ymddangos yn anarferol!
- Cyfeiriwch eich plentyn i wahanol rannau o'r llun i liwio, a gofyn “pa liw wnewn ni ei ddefnyddio…?”
- Anogwch eich plentyn yn ofalus i lenwi’r gofod “Peidiwch ag anghofio lliwio yma” (gan bwyntio at y gofod)
- Os ydych am annog mwy o gywirdeb, mae'n well defnyddio pensiliau miniog yn hytrach na chreonau.

**Cam 4**




Bydd eich plentyn bellach wedi datblygu digon o reolaeth pensil i liwio gan ddefnyddio gwahanol gyfeiriadau. Bydd ganddynt ddealltwriaeth o sut i 'lenwi' gofod heb adael gormod o fylchau a bydd y lliwio yn dechrau edrych yn fwy trefnus. Bydd eich plentyn yn fwy penodol am y lliwiau y maent yn eu dewis ac yn amlach na pheidio byddant yn eu defnyddio'n briodol.

**Cyngor gwych!**

- Parhewch i liwio gyda'ch gilydd, gofynnwch i'ch plentyn edrych ar yr hyn yr ydych wedi’i liwio a gweld a ydych wedi methu unrhyw ddarnau.
  Defnyddiwch hyn fel ffordd o ddangos i'ch plentyn sut mae llenwi gofod yn edrych.
- Cadwch yr ardaloedd sydd angen eu lliwio'n fach ac yn gyraeddadwy, er mwyn ceisio sicrhau bod eu hymdrechion lliwio yn llwyddiannus. Gallwch gynyddu maint y lluniau yn raddol wrth i'w hamynedd a'u sgil ddatblygu.
- Os ydych chi am roi cynnig ar lun mwy, torrwch ef i fyny a lliwiwch yn ôl rhifau. Gall eich plentyn helpu i ddewis y lliwiau.
- Gofynnwch i'ch plentyn edrych ar yr hyn yr ydych wedi’i liwio a gweld a ydych chi wedi aros yn y llinellau. Dangoswch iddyn nhw bod oedolion weithiau'n mynd allan o'r llinellau hefyd ac mae hynny'n iawn.
- Dyma rai ffyrdd o helpu'ch plentyn i ddeall mai ffiniau yw’r llinellau heb dynnu sylw at eu camgymeriadau
  - Ewch dros y llinellau gyda darn o linyn cyn lliwio, mae hyn yn eu helpu i ddatblygu eu synnwyr o ffin wrth iddo ddod yn ffin ffisegol ar y dudalen.
  - Torrwch lun syml i'w liwio a'i ludo ar gefndir lliw. Bydd hyn yn rhoi syniad clir i'ch plentyn o'r gofod sydd ganddo i'w lenwi.
  - Lamineiddiwch dudalen lliw a thorrwch siapiau syml allan. Rhowch ychydig o bapur gwyn o dan y dudalen laminedig ac anogwch eich plentyn i liwio o fewn y siapiau.
  - Ymarferwch dynnu llinell o amgylch gwrthrychau, templedi neu hyd yn oed eu llaw a gadewch iddyn nhw weld y ffin maen nhw wedi'i chreu. Anogwch nhw i liwio hwn.
  - Defnyddiwch bensil HB ar gyfer lluniadu a phensiliau lliw i liwio. Fel hyn, mae lluniad a llinellau terfyn eich plentyn bob amser yn weladwy hyd yn oed os nad yw eu lliw yn gywir.